# YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

*Ceisiadau sy'n ymwneud â hysbysiadau gwella*

**1.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 (apêl yn erbyn hysbysiad gwella) ac eithrio cais y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad gwella (gan gynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) os sail y cais, neu un o'i seiliau, yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 2004 yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu, ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai honno yw'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLl.